SUT MAE COMPOSTIO

Dilynwch y canllawiau a gall compostio ddatblygu i fod yn rhan hwyliog a boddhaol o'r drefn yn eich cartref heb fawr o ymdrech.

Sut mae lleoli bin compost?

Dylid gosod y bin mewn man lle y gellir cael mynediad rhwydd ato er mwyn annog pawb i'w ddefnyddio. Dylai sefyll ar dir moel, pridd yw'r gorau er mwyn draenio unrhyw ddwr ffo yn ystod y borses gompostio.
Mae lleoliad heulog yn fan perffaith ar gyfer y bin compostio oherwydd bydd y gwres yn cyflymu'r broses, bydd yn compostio mewn cysgod ond yn arafach.

Beth sy'n achosi'r holl bydru?

Mae'n broses naturiol a phan ydych yn rhoi'r holl wastraff organig hwn mewn un lle rydych yn dechrau cadwyn o ddigwyddiadau pydru. Mae'n creu'r amgylchiadau iawn i ficrobau, ffyngau a chreaduriaid eraill, sy'n hanfodol ar gyfer compostio, i weithio. Bydd bin compostio wedi'i awyru'n dda yn cynorthwyo'r broses bydru ac yn arogli'n felys.

Gellir gwneud hyn trwy ychwanegu papur wedi'i grensian, troi'r compost o dro i dro a chodi'r caead ar y bin.

Gall yr holl broses gymryd cyn lleied a 6 mis neu hyd at flwyddyn. Ond pan fydd wedi gorffen bydd y compost yn debyg i bridd brown tywyll briwsionllyd heb unrhyw arogl.

Dulliau ac awgrymiadau.

Mae'n rheol gyffredin y gellir compostio unrhyw beth oedd yn arfer bod yn blanhigyn byw ac fe geir gwell compost o ddefnyddio amrywiaeth eang o gynhwysion.
Mae cydbwysedd da o nitrogen a charbon yn bwysig hefyd, ac mae hynny'n llawer rhwyddach nag y mae ar yr olwg gyntaf. Mae planhigion sy'n cynnwys llawer o nitrogen yn tueddu i fod yn noddlyd, yn feddal ac fel arfer yn ***wyrdd*** ac eithrio rhai llysiau h.y. moron a phannas ayb. Mae planhigion sy'n cynnwys llawer o garbon yn eithaf sych, yn ffibrog ac yn aml, yn ***frown***. Mae cymysgfa gyfartal o wyrdd a brown yn ddechreuad da ar gyfer gwneud compost da.
Bydd deunydd wedi'i rwygo neu'i dorri yn compostio'n gyflymach oherwydd bod mwy o arwynebedd ar gyfer y bacteria. Os nad ydych am ddefnyddio peiriant rhwygo yna gallwch ddefnyddio siswrn tocio i dorri brigau ayb, ond mae'n cymryd llawer mwy o amser!
Dylai'r cynnwys lleithder fod fel sbwng tamp, rhy sych a bydd y compostio'n arafu. Rhy wlyb a bydd yr aer yn cael ei gadw allan gan greu amgylchiadau anaerobig.